

9. Golygu Tudalennau Cartref Adrannau

Mae tudalennau cartref adrannau'n wahanol i dudalennau eraill yn yr adran a dylid eu trin yn wahanol. Maent yn cael eu galw'n dudalennau "dewislen arbennig" (special menu). Mae trefn dewislen arbennig yn eithaf cymhleth, a dylech fod yn ofalus iawn wrth olygu cynnwys ynddynt.

Mae tudalen dewislen arbennig yn cynnwys nifer o rannau:

- Rhan [lefel uchaf yr adran](#), sydd fel rheol yn cynnwys Bloc Cyswllt ac a allai gynnwys *News Chooser*
- Nifer o is-adrannau ychwanegol:
 - [column 1](#)
 - [column 2](#)
 - [departmental colours](#)
- Gan ddibynnu ar yr adran mae'n bosibl y ceir hefyd:
 - [column 3](#)
 - [top story](#)

Dylid gosod yr holl is-adrannau i beidio ag ymddangos yn y llywio.

Ni ddylech geisio ychwanegu neu dynnu gwahanol rannau o'r ddewislen arbennig, ond gallwch olygu rhywfaint o'r cynnwys drwy ddefnyddio'r sgiliau yr ydych wedi'u dysgu yn y tudalennau gwybodaeth blaenorol. Gweler y tudalennau canlynol i gael rhagor o fanylion am bob rhan o'r ddewislen arbennig.

Cynnwys Adran Lefel Uchaf

O fewn eich adran lefel uchaf dylech ddod o hyd i'r Bloc Cyswllt ac mae'n bosibl y cewch hyd i 'News Chooser'. Er enghraifft, yn adran lefel uchaf canlynol:

General
Content
Content types
Page Layouts
More ▾

Content in this section

Enable automatic ordering

Preview
Direct edit
Undo last action
Undo all actions
Bulk actions ▾
Add content

Display 10 records
Filter:

Order	Name	Version	Status	Last modified	Publish date		🔒	☐
+	Title <small>🔗 Title</small>	7.0	Approved	May 7, 2019 2:15 PM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐
+	Contact Block <small>🔗 Contact Block</small>	12.0	Approved	September 17, 2020 11:52 AM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐
+	News Selector <small>🔗 z_news_selector HOMEPAGE</small>	2.0	Approved	May 1, 2013 10:20 AM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐
+	Metadata <small>🔗 Courses Metadata</small>	2.0	Approved	January 12, 2015 2:43 PM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐
+	Metadescription <small>🔗 Meta Data</small>	2.0	Approved	April 18, 2018 1:55 PM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐

Showing 1 to 5 of 5 entries
< 1 >

Mae'r cynnwys Metadata ar waelod y rhestr yn fetadata arbennig sy'n gysylltiedig ag enwau'r cyrsiau a addysgir gan yr adran. Dim ond gweinyddwyr all olygu hwn.

Contact Block

Mae'r *contact block* yn bloc cyswllt safonol fel pob tudalen arall. Bydd yn gyswllt adrannol cyffredinol yn hytrach na bod yn gyswllt penodol y byddech chi'n ei gael ar dudalennau sy'n gysylltiedig â maes penodol. Mae'n debygol o ddrychweddu cynnwys a ddefnyddir mewn nifer o dudalennau o fewn yr adran. Gweler [Taflen Wybodaeth 3.1](#) i gael rhagor o wybodaeth am Flociau Cyswllt.

News Chooser

Mae'r *News Chooser* yn fath arbennig o gynnwys sy'n galluogi i'r newyddion adrannol ymddangos ar waelod tudalen gartref yr Adran. Os ydych wedi galluogi'r system newyddion ar gyfer eich adran, byddwch yn gweld y darn hwn o gynnwys, ond ni ddylech geisio ei olygu. Gweler [Taflen Wybodaeth 10](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Is-Adrannau

column 1

Dyma'r golofn gyntaf ar y dudalen. Er enghraifft:



Nid oes gan rai adrannau'r bloc lled dwbl (is-adran prif stori) ar y brig, dim ond colofnau. Er enghraifft - Gwasanaethau Croeso:

Hospitality Services

- Opening Term Time Hours
- The Food Hall Weekly Menus
- Groceries and supplies
- Aber Card
- Catered Residences
- Sustainability Objectives 2023
- Event Catering
- Allergy Information
- Vegan Information
- Halal Information
- Food & Drink Packages
- University branded Clothing
- 150th Anniversary Gifts
- 120th Anniversary Law Department Gifts
- Contact Us



O fewn is-adran *column 1*, bydd un darn o gynnwys neu fwy:

General | **Content** | Content types | Page Layouts | More ▾

Content in this section

Enable automatic ordering

Preview | Direct edit | Undo last action | Undo all actions | Bulk actions ▾ | + Add content

Display 10 records Filter:

Order	Name	Version	Status	Last modified	Publish date		🔒	☐
+	Undergraduate Study <small>Background image block (no text)</small>	1.0	Approved	August 5, 2022 11:13 AM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐
+	Research <small>Background image block (no text)</small>	2.0	Approved	August 5, 2022 11:44 AM	N/A	⚙️ Actions ▾	↑	☐

Showing 1 to 2 of 2 entries < 1 >

Mae gan y rhan fwyaf o adrannau golofnau wedi'u gwneud allan o flociau o luniau (teils), felly fe welwch sawl darn o gynnwys wrth ddefnyddio'r math o gynnwys 'Background image block (no text)'.

Os oes arnoch angen golygu bloc llun, edrychwch ar Daflen Wybodaeth 21 i gael rhagor o fanylion.

Os oes arnoch angen golygu cynnwys cyffredinol, golygwch ef yn yr un modd ag arfer gan sicrhau eich bod yn ymwybodol y dylai penawdau fod o fewn y cynnwys gan ddefnyddio 'heading 2' yn hytrach nag yn y maes Teitl.

column 2

Dyma'r ail golofn ar y dudalen.

Mae strwythur *column 2* yn debyg iawn i *column 1*.

O fewn is-adran *column 2*, bydd un darn o gynnwys neu fwy:

Mae gan y rhan fwyaf o adrannau golofnau wedi'u gwneud allan o flociau o luniau (teils), felly fe welwch sawl darn o gynnwys wrth ddefnyddio'r math o gynnwys '*Background image block (no text)*'.

Os oes arnoch angen golygu bloc llun, edrychwch ar Daflen Wybodaeth 21 i gael rhagor o fanylion.

Os oes arnoch angen golygu cynnwys cyffredinol, golygwch ef yn yr un modd ag arfer gan sicrhau eich bod yn ymwybodol y dylai penawdau fod o fewn y cynnwys gan ddefnyddio 'heading 2' yn hytrach nag yn y maes Teitl.

column 3

Os yw eich adran yn defnyddio'r System Newyddion, efallai na fydd *column 3* yn bresennol, ond os ydyw, bydd yr eitemau ynddi'n ymddangos o dan y ffrwd newyddion.

Mae strwythur *column 3* yn debyg iawn i golofnau 1 a 2.

O fewn is-adran *column 3*, bydd un darn o gynnwys neu fwy:

Mae gan y rhan fwyaf o adrannau golofnau wedi'u gwneud allan o flociau o luniau (teils), felly fe welwch sawl darn o gynnwys wrth ddefnyddio'r math o gynnwys 'Background image block (no text)'. Caiff y rhain eu harddangos yn wahanol yng ngholofn 3 o'i gymharu â cholofnau 1 a 2. Mae'n bosibl bod gan rai adrannau flociau o Gynnwys Cyffredinol sy'n cynnwys testun a dolenni, yn ogystal â chynnwys Dolenni Cyfryngau Cymdeithasol sy'n cynnwys dolenni i Twitter, Facebook, ac ati.

Os oes arnoch angen golygu bloc llun, edrychwch ar Daflen Wybodaeth 21 i gael rhagor o fanylion.

Os oes arnoch angen golygu cynnwys cyffredinol, golygwch ef yn yr un modd ag arfer gan sicrhau eich bod yn ymwybodol y dylai penawdau fod o fewn y cynnwys gan ddefnyddio '*heading 2*' yn hytrach nag yn y maes Teitl.

top story

Nid oes gan bob adran yr is-adran hon. Mae'n floc lled 2 golofn ar frig y ddewislen arbennig. Er enghraifft, yn Adran y Gwyddorau Bywyd:



Gallai'r is-adran prif stori gynnwys un o 3 math gwahanol o gynnwys:

- *Background image block (no text) (topstory)* - mae hwn yn debyg i'r blociau lluniau a ddefnyddir yn aml yn y colofnau. Mae hwn yn fwy, felly mae'n llenwi lled y golofn ddwbl.
- *Image Gallery or Slideshow Import* – mae hwn yn ddarn o gynnwys sy'n tynnu llithrydd lluniau i mewn sy'n cylchdroi'n awtomatig drwy nifer o luniau gyda thestun a dolenni cysylltiedig ar hyd y gwaelod.
- *General content* - ni chaiff hwn ei ddefnyddio'n eang, ond os yw'n bresennol gall gynnwys testun a dolenni.

Os oes arnoch angen golygu bloc llun, edrychwch ar Daflen Wybodaeth 21 i gael rhagor o fanylion.

Os oes arnoch angen golygu llithrydd lluniau, [cysylltwch â Gwasanaethau Gwybodaeth](#) am gymorth.

Os oes arnoch angen golygu cynnwys cyffredinol, golygwch ef yn yr un modd ag arfer gan sicrhau eich bod yn ymwybodol y dylai penawdau fod o fewn y cynnwys gan ddefnyddio 'heading 2' yn hytrach nag yn y maes Teitl.

***departmental colours* (Ni ddylid golygu hwn)**

Mae'r adran *departmental colours* yn rheoli'r pennyn ar gyfer eich adran. **NI ddylech olygu'r adran hon.**